# CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL LLŶN 13/07/16

**Yn bresennol**:

T. Victor Jones (Cyngor Cymuned Llanbedrog) (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Angela Russell (Is-gadeirydd)

**Aelodau:** Y Cynghorwyr Gruffydd Williams a R. H. Wyn Williams (Cyngor Gwynedd), Noel Davey (Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig), John Gosling (Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn), Arfon Hughes (Cyngor Tref Nefyn), William I. Hughes (Undeb Amaethwyr Cymru), Sian Parri (Cyngor Cymuned Tudweiliog), Sianelen Pleming (Cyngor Cymuned Pistyll), Alun Price (Cyfoeth Naturiol Cymru) a John Eric Williams (Cyfeillion Llŷn).

**Swyddogion:** Bleddyn P. Jones (Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn), Elin Wyn Hughes (Swyddog Prosiect AHNE), Wyn Williams (Rheolwr Cefn Gwlad a Mynediad) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Gareth Roberts, Hedd Rhys (NFU Cymru), Laura Hughes (Ymddiriedolaeth Genedlaethol) ac Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd.

## 1. CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol T. Victor Jones yn Gadeirydd am y flwyddyn 2016/17.**

## 2. IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Angela Russell yn Is-gadeirydd am y flwyddyn 2016/17.**

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2015, fel rhai cywir.

## 5. TIRWEDDAU'R DYFODOL CYMRU

Cyflwynwyd adroddiad Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn yn rhoi diweddariad o ran yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Adroddwyd mai'r cam nesaf fyddai i Gadeirydd rhaglen ddatblygu Tirweddau Dynodedig Cymru grynhoi'r holl gasgliadau ac argymhellion a'u cyflwyno i Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, am ystyriaeth bellach.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau roi sylwadau, ymatebodd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn i'r sylwadau fel a ganlyn:

- Ei fod yn debygol y byddai ymgynghoriad pellach ar ôl i'r Ysgrifennydd Cabinet ystyried y wybodaeth;
- Mai addasiadau yn hytrach na newidiadau mawr y byddai'n deillio o'r gwaith ac fe roddir trefn blaenoriaeth o ran gweithredu – Tymor Byr, Canolig a Hir;

- Bod neges wedi ei gyfleu yn ystod y trafodaethau o ran yr angen am adnoddau cyllidol uwch na hyn a dderbynnir yn bresennol a sicrwydd ariannol ar gyfer y dyfodol;
- Yr anfonir neges i Arglwydd Dafydd Ellis-Thomas, Cadeirydd y rhaglen datblygu o ran yr angen i ystyried Tir y Goron;
- Ei fod yn anhebygol y byddai rheolaeth y Parciau Cenedlaethol a'r AHNEau yn uno ond fe ystyrir rhoi un brand ymbarel ar draws y ddau ddynodiad;
- Ni ragwelir newid deddfwriaeth yn y tymor byr/canolig;
- Bod casgliadau'r rhaglen ddatblygu yn debyg i'r hyn a nodwyd yn adroddiad yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig.

**PENDERFYNWYD:**
**(i) derbyn yr adroddiad;**
**(ii) bod Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn yn anfon neges i Arglwydd Dafydd Ellis-Thomas, Cadeirydd y rhaglen datblygu o ran yr angen i ystyried Tir y Goron.**

**6. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD A MÔN 2011-26**

Cyflwynwyd adroddiad Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn yn rhoi diweddariad ar broses mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn 2011-26. Nododd y trafodwyd y polisïau perthnasol i'r Ardal o Harddwch o'r Cynllun Adnau Drafft yng nghyfarfod y Cyd-Bwyllgor ar 25 Mawrth 2015 ac fe anfonwyd ymateb y Cyd-Bwyllgor i'r ymgynghoriad i'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd.

Adroddwyd mai'r cam nesaf yn y broses byddai cynnal Archwiliad Annibynnol gyda 2 Arolygydd annibynnol yn ystyried yr holl wrthwynebiadau oedd heb eu datrys. Nodwyd yr ymdrinnir â'r sylwadau trwy drefn ysgrifenedig neu wrandawiad, yn ddibynnol ar ddymuniad y rhai a gyflwynodd sylwadau.

Nododd aelod y dylid cyflwyno sylwadau'r Cyd-Bwyllgor trwy drefn o wrandawiad gan y gellir rhoi'r achos drosodd yn gryfach.

Tywysodd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn yr aelodau drwy'r atodiad a oedd yn cynnwys manylion y sylwadau a wnaed gan y Cyd-Bwyllgor ag ymateb swyddogion yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd i'r sylwadau, ynghyd â dogfen ychwanegol a rannwyd yn ystod y cyfarfod yn nodi'r newidiadau a wnaed i rannau perthnasol o'r Cynllun yn dilyn yr ymgynghoriad.

Cafwyd trafodaeth ar y sylwadau ac os dylid mynd a'r sylwadau ymlaen i wrandawiad.

Nododd aelod siom bod cynifer o sylwadau ddim wedi eu derbyn gan swyddogion yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd.

Cyfeiriodd aelod at wybodaeth a gyflwynir gan Hanfod yng nghyswllt effaith ar yr Iaith Gymraeg. Nododd y dylid nodi cefnogaeth y Cyd-Bwyllgor i'r wybodaeth a gyflwynir gan Hanfod i'r archwiliad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, nododd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn y byddai'r gwrandawiadau yn gyhoeddus ac fe fyddai'n anfon manylion trefniadau'r gwrandawiadau i'r aelodau.

Nododd aelod fe ddylid ystyried rhannu'r baich o ran cyflwyno'r sylwadau yn hytrach na bod y cyfrifoldeb i gyd yn disgyn ar y Cadeirydd. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn y byddai'n trafod y mater efo'r Cadeirydd pan ystyrir y wybodaeth i'w gyflwyno.

**PENDERFYNWYD:**

**(i) bod y Cadeirydd yn cyflwyno'r achos mewn gwrandawiad yng nghyswllt y materion canlynol:**

- **Polisi ADN1 – 'Ynni Gwynt ar y Tir';**
- **Polisi ADN2 – 'Technoleg Ynni Adnewyddadwy Arall' – gan ymhelaethu ymhellach ar safbwynt y Cyd-Bwyllgor;**
- **Polisi TWR5 – 'Safleoedd Carafanau Teithiol, Gwersylla a Llety Gwersylla Amgen dros dro';**
- **Polisi Strategol PS16 – 'Gwarchod a gwella'r Amgylchedd Naturiol';**
- **Polisi AMG3 – 'Gwarchod yr Arfordir'.**

**(ii) bod Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn yn anfon manylion trefniadau'r gwrandawiadau i'r aelodau.**

## 7. DATBLYGIADAU SOLAR

Cyflwynodd Swyddog Prosiect AHNE adroddiad oedd yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol am ddatblygiadau solar, gwybodaeth am geisiadau cynllunio yn ardal Llŷn a'r diweddaraf am y taliadau am gynhyrchu trydan trwy ddull adnewyddol solar yn dilyn cais gan y Cyd-Bwyllgor yn ei gyfarfod diwethaf ar 18 Tachwedd 2015.

Mewn ymateb i sylwadau gan aelodau fod rhai datblygiadau solar bychan heb eu cynnwys, nodwyd bod yr Uned wedi ceisio llunio rhestr o geisiadau datblygiadau solar cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod 2000-16 ond nad oedd bob un cais wedi ei restru.

Tynnwyd sylw mai un fferm paneli solar a leolwyd yn yr Ardal o Harddwch sef yn Nwyryd, Rhoshirwaun. Nodwyd ei fod wedi ei leoli ar dir yn gogwyddo ar ochr a ddim ond yn weladwy o dir uchel gan ei fod wedi ei sgrinio.

Nododd aelod ei fod yn annhebygol y byddai llawer o geisiadau newydd ar gyfer y math yma o ddatblygiad gan fod y *feed-in tariff* yn dod i ben. Ychwanegodd yr angen i lunio Canllaw Cynllunio Atodol i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer rheoli datblygiadau solar yng Ngwynedd a Môn.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed datblygiadau solar o faint penodol, nododd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn y trafodir ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau o'r math yma gyda'r Cadeirydd, ac yn unol â phenderfyniad y Cyd-Bwyllgor yn ei gyfarfod diwethaf, gall y Cadeirydd alw cyfarfod arbennig o'r Cyd-Bwyllgor i roi sylw penodol ar geisiadau cynllunio unigol a fyddai'n niweidio'r AHNE.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 8. CYNLLUN RHEOLI'R AHNE

Cyflwynwyd adroddiad Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn yn rhoi diweddariad ar y gwaith o ddiweddaru ac adolygu Cynllun Rheoli'r AHNE. Tywyswyd yr aelodau trwy 2 bennod drafft o Ran 2 o'r cynllun rheoli sef 'Tirlun ac Arfordir' a 'Mynediad, Mwynhau a Chyfrannu' a oedd yn atodiad i'r adroddiad. Nodwyd yr anelir i ddod a gweddill penodau Rhan 2 o'r cynllun diwygiedig gerbron cyfarfod nesaf y Cyd-Bwyllgor yn yr Hydref.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau roi sylwadau, ymatebodd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn i'r sylwadau fel a ganlyn:

- Bod cyfeiriad at waith plwm a manganîs wedi ei gynnwys mewn rhan arall o'r cynllun ond fe ychwanegir cyfeiriad at y gwaith o dan y pennawd 'Nodweddion Arbennig' ym mhennod 'Tirlun ac Arfordir';

- Yr ymhelaethir ymhellach o dan materion ffyrdd yr angen i wneud man welliannau'r i'r A4417 rhwng Nefyn a Llanaelhaearn a fyddai'n sympathetig i'r tirlun o dan y pennawd 'Materion Llosg' ym mhennod 'Tirlun ac Arfordir';
- Yr ychwanegir Tre'r Ceiri o dan y rhestr o'r bryngaerau o dan y pennawd 'Cymeriad y Tirlun' ym mhennod 'Tirlun ac Arfordir';
- Bod cysylltiad rhwng y Cynllun Rheoli a'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a bod yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd bellach yn derbyn yr angen am gyfeiriad at Gynllun Rheoli'r AHNE yn y cynllun ar y cyd. Fe ychwanegir cyfeiriadau at y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn y cynllun rheoli er mwyn ei wneud yn gryfach;
- Bod y wybodaeth a gynhwysir o ran tyrbinau gwynt o dan bolisi TP8 yn fwriadol benagored er mwyn gallu ymdrin â cheisiadau cynllunio yn unigol. Nodwyd gan mai Cyngor Gwynedd a fyddai'n mabwysiadu'r Cynllun Rheoli y byddai'n rhaid iddo gyd-fynd efo'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ond fe addasir y cynnwys i adlewyrchu'r sylwadau a wnaed yng nghyswllt y cynllun ar y cyd gan gyfeirio at ddatganiad y Cyd-Bwyllgor yng nghyswllt ceisiadau cynllunio am dyrbinau gwynt;
- Yr edrychir ar yr opsiwn o ddiwygio ffurf y cynllun o ran nodi'r wybodaeth gefndirol efo'i gilydd gan fod mwy cynnil o dan y polisïau;
- Fe gysonir y fersiynau Cymraeg a Saesneg o ran defnydd iaith a defnyddio'r gair 'oppose' yn y Saesneg pan ddefnyddir gwrthsefyll yn y Gymraeg;
- O ran polisi TP3 fe ddiwygir y geiriad i nodi y gwrthsefyllir datblygiadau newydd arwyddocaol a fyddai'n cael effaith niweidiol ar yr AHNE;
- Fe gyfeirir at yr angen i Lywodraeth Cymru weithredu ar yr hawliau crwydro awtomatig a gynhwysir yn Neddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 neu greu deddf newydd o ran hawliau mynediad o dan y pennawd 'Materion Llosg' ym mhennod 'Mynediad, Mwynhau a Chyfrannu' lle ymhelaethir ar effaith erydiad arfordirol ar Lwybr yr Arfordir;
- Fe ychwanegir cyfeiriad at y potensial o wirfoddolwyr yn gwneud gwaith ar lwybrau o dan y pennawd 'Materion Llosg' ym mhennod 'Mynediad, Mwynhau a Chyfrannu';
- Nodir cyfeiriad penodol at yr angen i gael llwybr beics rhwng Pwllheli-Llanbedrog-Abersoch ym mhennod 'Mynediad, Mwynhau a Chyfrannu';
- Y disgwylir am gadarnhad o ran niferoedd defnyddwyr o'r Llwybr yr Arfordir gan Swyddog Prosiect Llwybr Arfordir er mwyn eu nodi yn y cynllun.

Cyfeiriodd aelodau at y toriadau ariannol a gymeradwywyd gan y Cyngor. Nodwyd bod angen tynnu sylw at doriadau ariannol i'r Gwasanaeth Morwrol a'r effaith ar yr AHNE. Tynnwyd sylw bod y toriadau ariannol yn golygu na fyddai gofal a rheolaeth ar draeth Nefyn ar ôl y flwyddyn bresennol a bod hyn yn peri pryder. Nodwyd yn ogystal y byddai cau toiledau cyhoeddus yn cael effaith negyddol ar dwristiaeth yn yr ardal.

**PENDERFYNWYD:**
**(i) derbyn yr adroddiad;**
**(ii) bod Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn yn diwygio'r pennodau drafft yn unol â sylwadau'r Cyd-Bwyllgor.**

Dechreuodd y cyfarfod am 4.35yh a daeth i ben am 6.40yh

____________________________

**CADEIRYDD**